



## Polisi Cyfleoedd Cyfartal

### Datganiad o Fwriad

Mae NEW Dance wedi ymrwymo i sicrhau, hyd eithaf ei allu, cydraddoldeb mynediad i'w wasanaethau ac i gymryd rhan yn ei waith i bob aelod o'r gymuned sy'n dymuno hynny, waeth beth fo'u hunaniaeth hiliol ac ethnig, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, anableddau neu oedran, priodas a phartneriaeth sifil a mamolaeth a beichiogrwydd. Bydd NEW Dance yn monitro ac yn adolygu'n flynyddol y ffordd mae'n gweithredu ei bolisiâu cyfleoedd cyfartal, ac mae wedi ymrwymo i weithio i gywiro unrhyw ddiffygion a ddarganfyddir trwy'r Adolygiad Blynyddol.

### Amcanion Cyfleoedd Cyfartal

Mae rhai ffactorau neilltuol sy'n effeithio ar amrywiaeth cymunedol yng ngogledd-ddwyrain Cymru: er enghraifft, colli diwydiant trwm; y teimlad cryf o hunaniaeth leol mewn rhai cymunedau (fel na fydd darpariaeth gwasanaeth mewn ardal gyfagos yn cael ei hystyried fel darpariaeth "leol" a hygyrch); amrywiaeth gwledig/trefol; cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith; newidiadau diweddar mewn amrywiaeth ethnig yn sgil mudwyr economaidd a ffoaduriaid yn ymsefydlu.

Mae'r ffactorau hyn yn ysgogi NEW Dance i ychwanegu tri amcan pellach i'w ddatganiad o fwriad:

- 1) Cyn belled â bod ganddo'r gallu i wneud hynny, bydd NEW Dance yn hwyluso cyfranogiad pobl sydd ar incymau isel; does arnom ni ddim eisiau i anallu i dalu lesteirio mynediad i'n rhaglenni.
- 2) Nod NEW Dance yw defnyddio'i raglen o addysgu a pherfformio i gyfrannu at hyrwyddo perthynas gymunedol dda a pharch rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol at ei gilydd, trwy gadarnhau gwerth pob person yn y gymuned.
- 3) Ni fydd NEW Dance yn goddef cam-wahaniaethu ar unrhyw sail ac mae'n gweithredu polisi bwriadol o gyfleoedd cyfartal. Fodd bynnag, ni allwn weithredu i gael gwared ar gam-wahaniaethu oni bai ein bod yn cael gwybod ei fod yn digwydd.

## **Gweithredu Polisi ac Amcanion Cyfleoedd Cyfartal NEW Dance**

### **Darparu gwasanaethau**

Mae NEW Dance yn cydnabod ei fod yn diwallu nifer o anghenion penodol yn ei raglen o wasanaethau:

- Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddawnus a all ddymuno ystyried gyrfa mewn dawns, i gyrraedd safonau proffesiynol o ddawns a hyfforddiant dawns yng Nghymru
- Hyrwyddo dawnsio fel rhan o addysg gorfforol mewn ysgolion / hyfforddi athrawon
- Hyrwyddo dawns fel gweithgaredd hyrwyddo iechyd neu weithgaredd hamddan
- Rhoi cyfleoedd i'r rheini sy'n dymuno gwerthfawrogi a chefnogi perfformwyr dawns, boed arnynt nhw eisiau gwyllo aelodau eu teulu yn perfformio neu fwynhau perfformiad dawns proffesiynol.

Bydd NEW Dance yn gwneud pob ymdrech o fewn ei adnoddau presennol i sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl wasanaethau hyn, i bob aelod o'r gymuned sy'n dymuno cymryd rhan, waeth beth fo'u hunaniaeth hiliol ac ethnig, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, anableddau, oedran neu incwm. Yn ei ddarpariaeth addysgu a pherfformio, nod NEW Dance yw adlewyrchu cymunedau amrywiol gogledd-ddwyrain Cymru, hyrwyddo parch i holl werthoedd y cymunedau, a gwrthwynebu hiliaeth, rhywiaeth, a rhagfarnau cymdeithasol eraill. Rhoddir ystyriaeth i addasrwydd yr amser o'r dydd mae rhai gwasanaethau penodol yn cael eu rhaglennu (ee dosbarthiadau gofalwyr a phlant bach, dosbarthiadau ieuencid, dosbarthiadau oedolion).

### **Rhedeg NEW Dance fel cwmni elusennol**

Mae NEW Dance wedi ymrwymo i fonitro ei gydymffurfiaid â phob deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal a gwrth-wahaniaethu yn ei arferion rheoli a chyflogi. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o'r Bwrdd a chyfleoedd cyfartal mewn arferion cyflogaeth (recriwtio, tâl, telerau ac amodau cyflogaeth, cyfleoedd dyrchafiad, a disgyblaeth ac arferion diswyddo).